

Crynodeb Gwirio Ansawdd Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch Dyddiad y gweithgarwch: 18 Ionawr 2023

Dyddiad cyhoeddi: 5 Ebrill 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch, Barmouth Road, Tredelerch, Caerdydd, CF3 3LG, ar 18 Ionawr 2023, fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch yn rhan o'r gwasanaethau practis cyffredinol a ddarperir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ar adeg y Gwiriad Ansawdd, roedd tîm y practis yn cynnwys pump meddyg teulu a oedd yn bartneriaid, 11 o feddygon teulu cyflogedig ac un Uwch-ymarferydd Nyrsio. Roedd tîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn cynnwys nyrsys practis, gweithwyr cymorth gofal iechyd a fferyllwyr hefyd yn cael eu cyflogi gan y practis.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio i ba raddau y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn ymwneud yn benodol â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae gwiriadau ansawdd yn ein galluogi i ystyried sut mae'r gwasanaethau yn cyrraedd y safonau perthnasol mewn ffordd ystyrlt, gan ein galluogi i roi cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithredu'r gwasanaethau mewn ffordd ddiogel. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Practis ar 18 Ionawr 2023, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith sy'n cynnal safonau atal a rheoli heintiau cyfredol er mwyn diogelu cleifion, staff ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sydd ar waith i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut rydych yn sicrhau bod y practis yn cynnal yr ansawdd disgwylidig o ran gofal cleifion ac o ran cyflenwi gwasanaethau?

-
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?
 - Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill? Gall hyn gynnwys timau iechyd meddwl, gwasanaethau gofal eilaidd a gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys yr asesiadau risg amgylcheddol diweddaraf mewn perthynas â ffliw tymhorol/COVID-19.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym, oherwydd pandemig COVID-19, fod y practis wedi rhoi nifer o ragofalon ar waith i amddiffyn y cleifion, y staff ac ymwelwyr â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys codi sgriniau wrth ddesgiau'r dderbynfa ac yn y swyddfeydd gweinyddol, sicrhau bod mwy o le rhwng y seddau yn yr ardal aros a rhoi system unffordd ar waith i'r cleifion ei dilyn drwy'r practis. Nododd rheolwr y practis, er gwaethaf y ffaith bod y cyfyngiadau mewn perthynas â COVID-19 wedi'u llacio, fod y rhagofalon hyn wedi cael eu cadw er mwyn parhau i amddiffyn y staff, y cleifion ac ymwelwyr.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob mis â'r nyrs arwain a'r uwch-bartner i drafod amgylchedd y practis ac a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau o ystyried canllawiau diwygiedig gan y bwrdd iechyd.

Roedd sawl gwahanol ffordd y gallai cleifion a oedd am drefnu apwyntiad neu gael cyngor gysylltu â'r practis. Gellid trefnu apwyntiadau drwy ap ffôn symudol neu drwy anfon e-bost neu ffonio'r practis. Roedd cleifion agored i niwed na fyddent o bosibl yn gallu defnyddio'r dulliau hyn yn gallu trefnu apwyntiad drwy ymweld â'r practis. Ar ôl iddynt gysylltu, byddai'r cleifion yn cael eu hasesu gan dîm penodedig yn y dderbynfa a oedd wedi cael eu hyfforddi fel swyddogion llywio gofal¹. Byddai'r broses hon yn galluogi'r meddyg teulu neu'r uwch-

¹ Derbynyddion neu staff gweinyddol sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol i'w helpu i gyfeirio cleifion at yr opsiwn mwyaf addas i ddiwallu eu hanghenion gofal yw Swyddogion Llywio Gofal.

ymarferydd nyrsio² a oedd ar ddyletswydd brysbennu³ i flaenoriaethu'r cleifion y dylid eu ffonio'n ôl yn gyntaf. Dywedwyd wrthym ar y cyfan y byddai'n bosibl i gleifion a fyddai'n gofyn am apwyntiad wyneb-yn-wyneb gael apwyntiad o'r fath. Byddai cleifion yr oedd angen apwyntiadau brys arnynt yn cael eu hasesu drwy'r un llwybr ac yn cael apwyntiad yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym, oherwydd y pandemig, fod y practis wedi buddsoddi mewn meddalwedd benodedig a oedd yn galluogi'r cleifion i siarad â'i meddyg drwy ddull fideo-ymgyngori o'u cartrefi eu hunain. Roedd hyn yn lleihau'r angen i ddod i'r clinig ac yn golygu bod llai o bobl yn mynychu'r practis. Roedd y feddalwedd hon yn cael ei chynnig o hyd fel un o'r opsiynau i'r cleifion gael apwyntiad â'u meddyg teulu ar ôl cyfnod y pandemig.

Roedd ymgyngoriadau drwy negeseuon testun hefyd ar gael i gleifion â nam ar eu clyw. Cadarnhaodd rheolwr y practis hefyd fod gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn ar gael i'r practis ei ddefnyddio ar gyfer cleifion.

Roedd y practis yn annog y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Roedd tri meddyg teulu ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd yn y practis yn siarad Cymraeg. Roedd gwasanaeth negeseuon Cymraeg ar gael i'r cleifion, a dywedwyd wrthym fod pob arwydd yn y practis yn ddwyieithog. Roedd posterï hefyd i'w gweld a oedd yn annog unigolion i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau meddyg teulu i gartrefi gofal lleol. Byddai rheolwr y cartref gofal yn trefnu ymweliadau drwy negeseuon e-bost. Byddai un o nyrsys y practis neu fferylllydd yn cynnal adolygiadau meddygol blynyddol ar gyfer preswylwyr y cartrefi gofal. Roedd y practis hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i ganolfan anabledau dysgu leol. Roedd preswylwyr a defnyddwyr y gwasanaeth hwn yn gallu defnyddio gwasanaethau meddyg teulu gan fod un o feddygon teulu'r practis yn ymweld â'r ganolfan bob wythnos.

Roedd ymweliadau cartref yn cael eu cynnig i gleifion a oedd yn gaeth i'r tŷ gan ddefnyddio dull seiliedig ar risgiau ar gyfer pob unigolyn.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom dystiolaeth o'r asesiad risg diweddaraf a gwblhawyd ar gyfer y practis wrth roi rhaglen frechu fflw tymhorol/COVID-19 ar waith. Cynhaliwyd yr asesiad risg diwethaf ym mis Hydref 2021 ac nid oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan fod llai o gyfyngiadau ar waith mewn perthynas â lledaenu afiechydon anadlol.

² Mae brysbennu yn cyfeirio at y broses a ddefnyddir gan weithwyr meddygol neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig i bennu ym mha drefn y dylai cleifion gael eu gweld gan ddibynnu ar lefel eu hanghenion clinigol.

³ Mae Uwch-ymarferwyr Nyrsio yn nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sydd wedi cwblhau addysg bellach hyd at lefel Meistr mewn ymarfer clinigol ac yr aseswyd eu bod yn gymwys i ymarfer gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau clinigol arbenigol. Mae'r rhyddid a'r awdurdod ganddynt i weithredu, gan wneud penderfyniadau annibynnol er mwyn asesu cleifion, gwneud diagnosis a'u trin.

Rhaid i'r practis adolygu'r asesiad risg ar gyfer rhoi brechiadau ffliw tymhorol/COVID-19 er mwyn sicrhau ei fod yn dilyn y canllawiau a'r meini prawf diweddaraf ar gyfer atal feirysau a drosglwyddir drwy anadlu.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

- Polisiau rheoli heintiau cyffredinol a pholisiau penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- Amserlenni glanhau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o restrau gwirio glanhau a oedd wedi'u cwblhau'n ddiweddar gan y glanhawyr oedd â'r contract glanhau ar gyfer y practis meddygol. Roedd y rhain yn dangos bod trefniadau glanhau priodol ar waith yn unol â'r canllawiau atal a rheoli heintiau. Roedd cofnodlyfr cyfathrebu yn cael ei ddefnyddio i nodi unrhyw feysydd neu eitemau yr oedd angen i'r staff glanhau roi sylw penodol iddynt.

Wrth siarad â rheolwr y practis, dywedwyd wrthym fod nyrs benodedig yn y practis yn gyfrifol am gadw llygad ar y cyflenwadau cyfarpar diogelu personol (PPE)⁴. Pe byddai angen PPE ychwanegol, byddai neges e-bost yn cael ei hanfon bob wythnos i'r bwrdd iechyd er mwyn ailarchebu'r eitemau yr oedd eu hangen. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod 'gorsafoedd' PPE penodedig wedi cael eu prynu ar ddechrau'r pandemig. Roedd cyflenwadau PPE yn cael eu cadw yn y gorsafoedd hyn a oedd wedi'u gosod ar waliau'r ystafelloedd ymgynghori ac mewn manau strategol drwy'r practis. Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod yn cael eu defnyddio o hyd yn y practis er mwyn sicrhau bod PPE ar gael i'r staff.

Nododd rheolwr y practis fod cyfarfodydd staff yn rhan annatod o'i ymdrechion i sicrhau arferion atal a rheoli heintiau da drwy gydol y pandemig ac wedi hynny, a nodwyd bod y trefniadau cyfathrebu rhwng y staff ar bob lefel o'r practis yn dda.

Dywedwyd wrthym fod pecyn penodol ar gael i'r staff a oedd yn ymweld â chartrefi cleifion.

⁴ Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn cyfeirio at eitemau amddiffynnol fel ffedogau, masgiau, feisorau a menig a gaiff eu gwisgo i amddiffyn y gweithiwr gofal iechyd a'r claf rhag heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd.

Roedd y pecyn hwn yn cynnwys eitemau untro fel thermomedrau yn ogystal ag eitemau o PPE a weips diheintio. Byddai'r eitemau a fyddai'n cael eu defnyddio yn ystod ymweliad â chartref yn cael eu dychwelyd i'r clinig a'u gwaredu'n briodol.

Nododd rheolwr y practis fod adeilad y practis yn fawr a'i fod wedi cael ei adeiladu'n bwrpasol at y diben. Dywedwyd wrthym fod dwy ystafell wedi cael eu dynodi fel ystafelloedd ynysu ar gyfer cleifion yr oedd angen apwyntiad arnynt ond yr oedd ganddynt symptomau a oedd yn gysylltiedig â salwch a drosglwyddir drwy anadlu. Roedd mynedfa ar wahân i'r adeilad y gellid ei defnyddio ar gyfer yr ystafelloedd hyn ac felly roedd modd gweld y cleifion hyn yn ddiogel yn y practis heb beri risg i eraill.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom dystiolaeth o'r polisi glanhau diweddaraf. Roedd yn gynhwysfawr, ond nid oedd dyddiad na rhif fersiwn rheoli arno ac nid oedd yn nodi pryd y byddai angen ei adolygu.

Rhaid i'r practis sicrhau bod dyddiad a rhif fersiwn rheoli ar bolisiau a gweithdrefnau, a bod dyddiad wedi'i nodi ar gyfer adolygu'r polisiau a'r gweithdrefnau hynny.

Gwnaethom ofyn am ddata hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gyfer staff gofal iechyd y practis. Er i ni gael gwybod bod hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn cael ei gynnig drwy'r bwrdd iechyd lleol, ni chawsom dystiolaeth o ddata hyfforddiant ar gyfer y staff. Yn hytrach, darparwyd tystiolaeth o hyfforddiant ar gyfer y Dechneg Ddigiyyfwrdd Aseptig (ANTT)⁵. Roedd yn nodi mai'r tro diwethaf i'r staff gofal iechyd gwblhau hyfforddiant yn y dechneg hon oedd mis Mehefin 2021. Gan na chawsom wybodaeth am hyfforddiant y staff o ran atal a rheoli heintiau, nid oedd modd i ni asesu cydymffurfiaeth yn y maes hwn.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff hyfforddiant atal a rheoli heintiau ei ailadrodd yn rheolaidd. Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod y staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut maent yn rheoli eu gwasanaethau er mwyn helpu i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Gwnaethom archwilio'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill ac yn cynnal ansawdd gofal cleifion.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

⁵ Defnyddir y Dechneg Ddigiyyfwrdd Aseptig (ANTT) mewn lleoliadau gofal iechyd ac mae'n seiliedig ar bedair prif egwyddor, sef 'Di-haint', 'Glân', 'Asepsis' a 'digiyyfwrdd', i atal heintiau. Mae'r dechneg hon yn anelu at atal unigolion rhag cyffwrdd ag eitemau a gaiff eu defnyddio gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ar glaf.

-
- Polisiâu/prosesau corfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
 - Cynlluniau parhad busnes.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom ofyn i reolwr y practis sôn wrthym am y newidiadau a wnaed i'r practis a'r tîm gofal sylfaenol ehangach oherwydd y pandemig er mwyn gwneud yn siŵr bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi ymdrechu'n galed i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r newidiadau diweddaraf o ran deddfwriaeth a chanllawiau. Roedd polisiâu a gweithdrefnau'r practis wedi cael eu cyflwyno i'r bwrdd iechyd lleol ac wedi cael eu cymeradwyo er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd hyn yn arbennig o bwysig gan fod y practis yn gweithredu fel practis hyfforddi i feddygon a oedd newydd gymhwyso.

Nododd rheolwr y practis fod y tîm staff yn fawr, nad oedd unrhyw swyddi gwag yn y practis ac nad oedd unrhyw aelodau o'r staff i ffwrdd o'r gwaith ar gyfnod hir dymor o absenoldeb oherwydd salwch.

Roedd grŵp clwstwr bach o feddygon teulu⁶ a oedd yn cynnwys pedwar practis. Fodd bynnag, nodwyd ei fod yn cydweithio'n dda a dywedodd rheolwr y practis ei fod yn adnodd defnyddiol er mwyn rhannu gwybodaeth a gwersi i'w dysgu. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd rheolaidd â'r grŵp clwstwr naill ai'n cael eu cynnal ar ffurf rithwir neu wyneb-yn-wyneb a bod y trefniadau cyfathrebu yn dda.

Roedd y bwrdd iechyd lleol yn helpu'r practis i sicrhau bod amser dysgu gwarchoddedig⁷ ar gael. Roedd hyn yn golygu y gellid cynnal cyfleoedd dysgu i'r tîm cyfan ond gan sicrhau bod y cleifion yn cael gofal priodol ar yr un pryd. Canmolodd rheolwr y practis y trefniadau cyfathrebu rhwng y practis a'r bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd yn gefnogol ac yn hawdd mynd ato.

Gwnaethom ofyn i reolwr y practis sôn wrthym am y trefniadau ar gyfer casglu adborth gan y cleifion. Gwnaed hyn yn bennaf drwy arolwg cenedlaethol a oedd yn cael ei anfon at 550 o gleifion a oedd wedi'u cofrestru yn y practis.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwnaethom ofyn am dystiolaeth o gofnodion cyfarfodydd staff diweddar. Ni ddarparwyd unrhyw gofnodion i AGIC fwrw golwg drostynt, ac felly nid oedd modd i ni gael sicrwydd digonol ynghylch rheoleidd-dra nac effeithiolrwydd cyfarfodydd staff. Mae'n ofynnol i'r practis anfon

⁶ Ystyr grŵp clwstwr o feddygon teulu yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) unigol GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y clystyrau yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith Ardal.

⁷ Mae amser dysgu gwarchoddedig yn cynnig cyfle i staff y practis ddiwallu eu hanghenion dysgu a datlbygu proffesiynol eu hunain.

copïau o gofnodion y cyfarfodydd staff i AGIC.

Roedd polisi'r practis ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol yn gynhwysfawr ond nid oedd dyddiad arno ac nid oedd rhif fersiwn na dyddiad adolygu arno. Er mwyn sicrhau bod y polisiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn gyfredol, rydym yn argymhell y dylai polisiau'r practis gynnwys y wybodaeth hon.

Rhyngwynebau

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis i weld a oedd mynediad effeithiol ar gael i weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill, gan gynnwys darpariaeth frys y tu allan i oriau.

Dyweddodd rheolwr y practis wrthym am yr effaith yr oedd newidiadau a roddwyd ar waith yn y practis wedi'i chael ar fynediad i'r tîm gofal sylfaenol ehangach, gwasanaethau gofal eilaidd a meddygon teulu y tu allan i oriau. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys meddalwedd fideo-ymgynghori, mwy o ddefnydd o systemau TG a chreu cysylltiadau rhwng cleifion a fferyllwyr cymunedol, a oedd yn gadarnhaol iawn. Nodwyd bod y broses o gyfeirio cleifion at wasanaethau priodol yn haws ac ar y cyfan bod amser ac adnoddau'r meddygon teulu yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy effeithlon. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym gan fod mynediad at feddygon teulu wedi gwella, fod y galw wedi cynyddu, a bod nifer uwch o geisiadau am ymgynghoriadau ffôn a fideo na'r nifer a fyddai ar gael fel arfer drwy apwyntiadau wyneb-yn-wyneb yn unig.

Dywedwyd wrthym fod yr her fwyaf a wynebwyd gan y practis yn ymwneud â derbyn cleifion i'r ysbyty. Nodwyd mai'r rheswm am hyn oedd diffyg gwelyau ac ambiwlansys brys i gludo cleifion sâl a oedd wedi dod i'r practis i'r ysbyty pan oedd angen gwneud hynny.

Dyweddodd rheolwr y practis wrthym fod iechyd meddwl hefyd yn bryder a oedd yn cael blaenoriaeth gan ei glinigwyr ac, yn sgil y pandemig, ei fod yn her gynyddol. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn gallu hunangyfeirio i gael help gan MIND⁸ ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl haen is. Roedd hyn ar gael drwy'r swyddogion llywio gofal yn y practis. Yn ogystal, roedd gan y practis ymarferwyr iechyd meddwl penodedig a oedd ar gael un diwrnod yr wythnos. Gellid atgyfeirio cleifion i'r gwasanaeth hwn ar unwaith. Nododd rheolwr y practis ei bod hi'n anodd cael gafael ar gymorth iechyd meddwl mwy aciwt.

Ar gyfer cleifion y mae angen triniaeth frys arnynt y tu allan i oriau, byddai adroddiadau yn cael eu hanfon drwy e-bost i'r practis ac yn cael eu sganio i mewn i gofnodion meddygol y claf. Dywedwyd wrthym fod y trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng y practis a'r gwasanaeth brys y tu allan i oriau yn dda. Pe byddai'r practis yn pryderu am glaf ar adeg pan

⁸ Mae MIND yn elusen cymorth iechyd meddwl gofrestredig sy'n anelu at roi cyngor a chymorth i rymuso unrhyw un sy'n dioddef o broblem iechyd meddwl.

oedd y feddygfa ar gau, byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r tîm y tu allan i oriau er mwyn iddo fod yn ymwybodol o'r mater ymlaen llaw.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau at wasanaethau gofal eilaidd wedi gwella ers y pandemig. Roeddent bellach yn cael eu hanfon drwy Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru (WCCG)⁹ ar-lein. Roedd y system hon yn golygu y gellid cyflwyno atgyfeiriadau at wasanaethau gofal eilaidd ar yr un diwrnod heb fod angen ysgrifennu llythyr. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y clinigwyr o'r farn bod y system newydd yn symlach, yn fwy effeithlon ac yn defnyddio llai o adnoddau. Roedd hefyd yn golygu y gellid nodi atgyfeiriadau amhriodol yn gyflymach a'u hailgyfeirio mewn modd prydlon ac amserol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod crynodebau rhyddhau cleifion o wasanaethau gofal eilaidd hefyd yn cael eu hanfon ar ffurf electronig. Byddai'r rhain wedyn yn cael eu lawrlwytho a'u hychwanegu at gofnodion meddygol y claf. Dywedwyd wrthym fod y clinigwyr o'r farn bod y system hon yn haws i'w defnyddio ac yn fwy effeithlon, gan nad oedd angen darllen crynodebau mewn llawysgrifen mwyach.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r

⁹ System genedlaethol yng Nghymru yw Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru (WCCG) ar gyfer rhannu gwybodaeth glinigol, megis atgyfeiriadau, yn electronig, sy'n cyfuno systemau gofal sylfaenol ac eilaidd gan ddefnyddio porth rhyngwyd diogel iawn.

meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol

- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Cynllun gwella ar unwaith

Lleoliad: Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch, Barmouth Road, Tredelerch, Caerdydd CF3 3LG

Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad y gweithgarwch: 18 Ionawr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes angen unrhyw welliannau ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad: Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch, Barmouth Road, Tredelerch, Caerdydd CF3 3LG

Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad y gweithgarwch: 18 Ionawr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis adolygu'r asesiad risg ar gyfer rhoi brechiadau ffliw tymhorol/COVID-19 er mwyn sicrhau ei fod yn dilyn y canllawiau a'r meini prawf diweddaraf ar gyfer atal feirysau a drosglwyddir drwy anadlu.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Asesiad risg wedi'i gwblhau gan y tîm rheoli.	Kim Came	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r practis sicrhau bod dyddiad a rhif fersiwn rheoli ar bolisiâu a gweithdrefnau, a bod dyddiad wedi'i nodi ar gyfer	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Caiff pob polisi ei ddiweddarau'n unol â hyn.	Kim Came	1 mis

adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny.				
Rhaid i'r practis sicrhau y caiff hyfforddiant atal a rheoli heintiau ei ailadrodd yn rheolaidd. Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod y staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Caiff dyddiadau eu trefnu ar gyfer yr hyfforddiant a darperir tystiolaeth o hynny. Trafod â'r Tîm Nyrsio pwy fydd yn hwyluso'r trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant diweddarau i staff newydd a staff presennol.	Kim Came	3 mis
Rhaid i'r practis ddarparu manylion cofnodion y cyfarfodydd staff diweddaraf i AGIC	7.1 Y Gweithlu	Lawrlwythwyd copiâu o'r cyfarfodydd staff diweddaraf	Kim Came	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Kim Came

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 17 Mawrth 2023